

TGAU IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL, A GOFAL PLANT



**CRYNODEB YMATEB
YMGYSYLLTIAD**

2018

Cwestiynau Ymgysylltu TGAU mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant

Cyflwyniad

Ym mis Mawrth 2017, cyhoeddodd Cymwysterau Cymru benderfyniad i gyfyngu ar gyfres newydd o gymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant¹ yng Nghymru. Mae'r gyfres hon yn cynnwys y TGAU Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant a fydd ar gael i'w addysgu am y tro cyntaf o fis Medi 2019. Mae'r cymhwyster TGAU newydd hwn yn cael ei ddatblygu gan gonsortium cyrff dyfarnu o City & Guilds London Institute a CBAC (y Consortiwm) a hon fydd yr unig fersiwn o'r cymhwyster a fydd ar gael i ddysgwyr ar raglenni a ariennir gan y wladwriaeth yng Nghymru.

Rhwng 22 Tachwedd a 19 Ionawr, gwnaethom gynnal gweithgareddau ymgysylltu â'r cyhoedd, a oedd yn cynnwys grwpiau wyneb yn wyneb ac arolwg ar-lein. Yn y gweithgareddau ymgysylltu hyn, gwnaethom ofyn cwestiynau ynghylch y nodau ac amcanion pwnc arfaethedig, cynnwys pwnc a threfniadau asesu a nodir yn y Meini Prawf Cymeradwyo ar gyfer y cymhwyster TGAU newydd mewn Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant.

Crynodeb Ymgysylltu

Gwnaethom gynnal pum grŵp ffocws ledled Cymru yn ystod y cyfnod ymgysylltu, yn Wrecsam, Bangor, Abertawe a Chasnewydd a daeth cyfanswm o 18 o unigolion i'r digwyddiadau hyn. Amlinellodd y pedwar grŵp ffocws ddiben yr ymgysylltu, gan grynhoi'r gweithgarwch prosiect hyd yma a chaniatáu i'r sawl a oedd yn bresennol ofyn cwestiynau a gwneud sylwadau ar y strwythur, y cynnwys a'r trefniadau asesu a gynigiwyd ar gyfer y cymhwyster yn y ddogfen meini prawf cymeradwyo. Daeth 30 o ymatebion llawn neu rannol i law i'n harolwg ar-lein.

Nodau ac amcanion pwnc

Roedd ein gweithgareddau ymgysylltu yn gofyn am adborth ar ein nodau ac amcanion asesu pwnc arfaethedig. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'n cynigion. Fodd bynnag, lleisiodd rhai bryderon ynghylch lefel yr iaith a ddefnyddiwyd. Er eu bod yn cydnabod bod yr iaith yn briodol ar gyfer Meini Prawf Cymeradwyo, awgrymodd yr ymatebwyr hyn y dylid defnyddio 'iaith haws ei deall' wrth ymgysylltu â dysgwyr. Gan ymateb i adborth y dylai'r cymhwyster gyflwyno dysgwyr i amrywiaeth o gyd-destunau sector, gwnaed y diwygiadau canlynol:

Cafodd nod ac amcan pwnc iii) "defnyddio dull ymholgar a beirniadol....." ei ddileu;

a chafodd y nod ac amcan pwnc canlynol ei ychwanegu:

"Datblygu ymwybyddiaeth o lwybrau gyrfa sydd ar gael o fewn y sector iechyd, gofal cymdeithasol a gofal plant."

¹ <http://qualificationswales.org/media/2534/230517-determination-to-restrict-hsc-final-w.pdf>

Cynnwys Pwnc a Sgiliau

Yn ystod ein gweithgareddau ymgysylltu, gwnaethom ofyn i'r rhanddeiliaid am eu safbwyntiau ar y cynnwys pwnc arfaethedig. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion yn cytuno â'r cynnwys pwnc arfaethedig gydag un ymatebydd yn nodi:

'mae'n ymddangos bod hyn yn dwyn y ddau gymhwyster presennol ynghyd a fydd yn rhoi gwybodaeth ehangach i'r dysgwyr'

Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylid rhannu'r cymwysterau'n ddau: un ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac un ar gyfer Gofal Plant. Fodd bynnag, roedd eraill yn cefnogi'r cynnig am un cymhwyster gyda llwybrau. Rydym wedi penderfynu cael un cymhwyster gyda dyfarniad gradd unigol a dwyradd gan fod hyn yn rhoi cyfle i'r dysgwyr ddatblygu dealltwriaeth eang ar draws y ddau sector a chael eu cyflwyno i Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant.

Yn dilyn y gweithgareddau ymgysylltu, datblygwyd cynnwys pwnc ymhellach gan ein partneriaid rhanddeiliaid allweddol (Gofal Cymdeithasol Cymru, GIG Cymru a'r Consortiwm) er mwyn sicrhau ei fod mor berthnasol a chyfoes â phosibl. Yn dilyn y datblygiad hwn, cafodd meysydd pwnc eu hychwanegu, eu dileu neu eu symud i faes pwnc gwahanol. Fodd bynnag, nid yw'r meysydd pwnc a gaiff eu cynnwys wedi newid, sef: Twf, Datblygiad a Lles Dynol; Hyrwyddo a Chynnal Iechyd a Lles; Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant yn y 21^{ain} Ganrif a Hyrwyddo a Chefnogi Iechyd a Lles er mwyn Cyflawni Canlyniadau Cadarnhaol.

Gwnaethom hefyd ofyn i ymatebwyr p'un a oeddent yn cytuno â'r rhestr sgiliau arfaethedig. Roedd llawer o'r ymatebwyr yn cytuno â'r rhestr sgiliau arfaethedig, gydag un yn nodi eu bod yn 'ennyn hyder a rhinweddau sy'n seiliedig ar werthoedd'. Awgrymodd nifer fach o'r ymatebwyr y dylid cynnwys sgiliau ychwanegol, fel 'sgiliau TG, dadansoddi, dehongli data, bod yn feirniadol a meddwl yn feirniadol...'.
i

Cynllun Asesu

Yn ystod ein gweithgareddau ymgysylltu, gwnaethom ofyn dau gwestiwn am y cynllun asesu: un am eiriad yr amcanion asesu ac un am bwysoliadau'r amcanion asesu hyn.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â geiriad yr amcanion asesu. Fodd bynnag, rydym wedi dileu chwarae o eiriad yr amcanion asesu ers hynny yn dilyn trafodaeth â'n partneriaid rhanddeiliaid allweddol. Cafwyd rhywfaint o bryder ynghylch geiriad amcan asesu tri. Felly, rydym wedi diwygio'r geiriad ar gyfer yr amcan hwn o:

"Dadansoddi a gwerthuso gwybodaeth a materion datblygu a chwarae yn ymwneud ag Iechyd, gofal cymdeithasol a gofal plant er mwyn dangos dealltwriaeth, y gallu i lunio barn resymedig a dod i gasgliadau";

i

"Dadansoddi a gwerthuso cysyniadau, gwerthoedd a materion yn ymwneud ag Iechyd, gofal cymdeithasol a gofal plant, y gallu i lunio barn resymedig a dod i gasgliadau

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â phwysoliadau arfaethedig yr amcanion asesu. Nid ydym wedi newid y pwysoliadau hyn ers y gweithgareddau ymgysylltu".

Teitl y Cymhwyster

Yn ein gweithgareddau ymgysylltu, gwnaethom gynnig mai'r teitl canlynol y dylid ei roi i'r cymhwyster: Lefel 1 a 2 Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant gyda chymeradwyaeth o ddyfarniad gradd unigol neu ddwyradd yn dibynnu ar y rhaglen a ddilynir. Awgrymodd yr ymatebwyr i'r gweithgareddau ymgysylltu nifer o deitlau gwahanol i'r cymhwyster, yn cynnwys defnyddio'r term TGAU, VCSE a dileu Lefel 1 a 2 o'r teitl.

Yn dilyn y gweithgareddau ymgysylltu, ac o ganlyniad i waith datblygu pellach ar gynnwys y pwnc a strwythur y cymhwyster gan y Consortiwm, penderfynwyd mai teitl y cymhwyster, yn dibynnu ar y rhaglen a ddilynir, fydd:

- TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant
- TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant (Dwyradd)

Mae'r penderfyniad hwn yn cyd-fynd â'r teitlau ar gyfer cyrsiau TGAU a nodir yn y ddogfen Meini Prawf Cymeradwyo Cymhwyster TGAU.

Cymorth ac Adnoddau

Drwy ein gweithgareddau ymgysylltu, gwnaethom holi'r ymatebwyr ynghylch pa gymorth ac adnoddau y byddai eu hangen ar ganolfannau ac ymarferwyr yn eu barn nhw. Ymysg yr ymatebion roedd datblygu aseswyr, amrywiaeth o adnoddau dysgu, canllawiau arfer gorau a gwerslyfrau. Rydym wedi rhannu'r wybodaeth hon â'r consortiwm cyrff dyfarnu er mwyn cefnogi'r broses o gynllunio eu rhaglen rheoli newid.

Sylwadau eraill

Mynegodd rhai ymatebwyr eu siom na fydd y gyfres newydd o gymwysterau yn cynnwys darpariaeth benodol ar gyfer dysgwyr lefel un. Ar ôl adolygu'r cymwysterau sydd ar gael ar gyfer y sector wrth benderfynu i gyfyngu, gwnaethom nodi nifer o gymwysterau ar lefel un, a ddarperir gan amrywiaeth o gyrff dyfarnu a fyddai'n addas ar gyfer y dysgwyr hyn. Ymysg y rhain roedd cymwysterau lefel un mewn astudiaethau galwedigaethol sydd ag unedau dewisol mewn Iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant.

**Rhagor o
wybodaeth**

Dylid cyfeirio ymholiadau ynglŷn â'r ddogfen hon at:

Ymholiadau

Cymwysterau Cymru

Adeilad Q2

Lôn Pencarn

Parc Imperial

Coedcernyw

Casnewydd

NP10 8AR

ymholiadau@cymwysteraucymru.org